

O BLAS I BLAS

Soniais o'r blaen am ffeiriau Conwy – y Ffair Hadau ym mis Mawrth a'r Ffair Fêl yn Hydref – lle ceir codi stondin am ddim. Holais a wyddai rhywun am ffeiriau eraill tebyg ond hyd yn hyn (wrth gwrs) ni chefais ateb. Aethom â'r stondin i'r Ffair Fêl y llynedd, a chael diwrnod da – o ran tywydd ac o ran elw. Yr oedd stondinau llyfrau eraill yno, gan gynnwys stondin *Landmark Books*, cwmni a gyhoeddodd nifer o lyfrau graenus iawn yn Saesneg am Gymru, ac a werthai rai llyfrau yno ar ostyngiad sylweddol. Ar Sadwrn yr un wythnos, yn Ffair Lyfrau'r Bala, cawsom y diwrnod gorau erioed: y tro hwn llwyddais i beidio â gwario'r elw cyn gadael y ffair. Cymysg fu hanes yr ocsiwn, yntê? Aeth rhai pethau'n eithaf, ond rhy uchel oedd y pris cadw ar sawl eitem, a 'doedd fawr o ddiddordeb yn y pethau Eingl-Gymreig: efallai y buasai Aberystwyth yn lle gwell i'w cynnig nhw. Daliaf i ddweud: dylai aelodau'r Gymdeithas yn y De fynd ati i gynnal ffair lyfrau yn rhywle yno.

Enillodd sawl cadair eisteddfodol

Yr oedd stondin yno gan un o feibion Gwent a fentrasai i'r Gogledd oer, a chanddo prynais beth o waith Myfanwy Haycock (1913-1963), bardd o Went: *Some Perfect Morning: The Poetry of Myfanwy Haycock* (d.d., (1991)) ac *A Tale that is True: A Book of Christmas Poetry* (1992). Bu hi farw'n annhymig: ei chwaer hŷn, Gwladys Haycock, a gasglodd ac a gyhoeddodd y detholiadau hyn (ac eraill) o'i gwaith. Nid oes dim sy'n avant-garde ynddo: fe'i hystyrir hi'n hen-ffasiwn heddiw mae'n siŵr. Cerddi crefftus, swynol, siriol a dwys Cymraes deimladwy, wlatgar a chrefyddol a geir yn y llyfrynnau cymen hyn. Yr oedd hefyd yn ddarlunydd medrus gyda'r bwrdd crafu, a cheir nifer o'i darluniau cain gyda'i cherddi, a'm plesiodd yn fawr. A fedrai hi'r Gymraeg? Dywedir iddi ennill sawl cadair eisteddfodol, ac yn Eisteddfod Genedlaethol 1932, a hithau'n bedair ar bymtheng mlwydd oed, dyfarnwyd iddi'r wobr gyntaf am delyneg gan y beirniad, y bardd W.H.Davies. Deuthum ar draws ei gwaith am y tro cyntaf mewn ysgrif arni, 'The Literary Pilgrim' gan Alice Greenwood, yn y cylchgrawn bach diddorol *Evergreen* (Spring, 1998) Fe haedda ei gwaith fod yn llawer mwy hysbys nag ydyw, ddywedwn i. (Cyhoeddir ei gwaith gan: Gwladys Haycock, Glyndŵr, Mount Pleasant, Pontnewynydd, Pont-y-pŵl NP4 6SE).

Mewn ambell sêl cist car arall, ni chawsom gystal hwyl arni, gyda stondinwyr eraill mewn anobaith yn ceisio gwerthu llyfrau i ni! Cynigiwyd imi glamp o lyfr yn dwyn y teitl *Egyptian Grammar* gan Sir Alan Gardiner: fe'i

cawn i o am bumpunt. O ran trugaredd, a chan mai'r Griffith Institute yn Rhydychen a'i cyhoeddasai, a chan feddwl y gallwn ei werthu ryw ddydd yn Llundain neu Rydychen, dyma dalu'r pris. Gyda'r nos bodiais drwyddo: nid gramadeg o Arabeg yr Aiffit heddiw oedd, ond o hieroglyffau Copteg y wlad honno: byddai angen oes arall imi feistrolï cynnwys y gyfrol. Ond, 'tawn i'n marw! O blith y tudalennau lithrodd y ddalennod orau a welais i erioed: papur pumpunt – hen ffasiwn, ond dilys o hyd!

Ddechrau mis Tachwedd aethom i blasty Erddig, ger Wrecsam, lle bu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnal ei harweithiant llyfrau ail law. Diwrnod digon diddan a fu er braidd yn flinedig. Ychydig iawn o lyfrau Cymraeg a Chymreig a gafwyd yno: am bunt cefais lyfr enwog Lowell Thomas *With Lawrence in Arabia*, a wnaeth lawer i hybu'r chwedloniaeth a dyfodd o gwmpas yr arwr o Dremadog. Os iawn y cofiaf, nid ystyrir Lowell Thomas yn hollol ddibynadwy, ac ategir hyn gan y nodyn a geir yn y llyfr: *The publishers desire to state that Colonel Lawrence is not the source from which the facts in this volume were obtained, nor is he in any way responsible for its contents.* O gofiannau eraill iddo a ddarllenais, casglaf mai cryn ramantwr oedd Lawrence yntau, ac na ellid dibynnu ar yr hyn a honnai yn ei gylch ei hun: tebyg at ei debyg, yntê?


Mewn ennyd o wendid prynais *My Wales* (1986) gan y diweddar werinwr, George Thomas, Viscount Tonypany. Yn anffodus mae'n hunanbortread o hen sinach rhagrithiol gwrth-Gymreig a llyfwr tinau Saeson a'u teulu brenhinol yn gymaint ag y mae'n bortread o'n gwlad. Paham y disgwyliwn amgen? Ond mae'n llawn o ffotograffau da iawn o waith yr Arglwydd Snowdon, Cwnstabl Castell Caernarfon, neb llai, gan gynnwys clamp o lun o'r Blaenau - ar ddiwrnod cymylog tywyll, fel y mae hi ryfeddaf. O a wnelo dwy bunt, ni alla'i gwyno: mi delais i fwy na hynny am un cerdyn post droeon cyn hyn.

Yr awdures yn perthyn i Nansi Richards

Prynodd Ann *Pilgrimage of Flowers* a gyhoeddwyd yn breifat yn 1970 gan Iona Trevor Jones, gyda chyfarchion yn llaw'r awdures i ryw Kay Piddock. Un o Ddyffryn Tanat oedd yr awdures, ac yn perthyn i Nansi Richards. Ar y clawr sonnir amdani fel aelod o'r Orsedd ac fel

Some Perfect Morning

A Selection of Poetry
by
Myfanwy Haycock
1913-1963



Compiled by
Gwladys Haycock and Wyn Williams

Wyneb-ddalen: *Some Perfect Morning* gan
Myfanwy Haycock

personoliaeth radio a theledu; ei phrif hawl i enwogrwydd oedd fel trefnydd blodau o fri rhyngwladol. Trefnodd nifer o wyliau blodau, gan gynnwys Pererindod y Blodau i Gadeirlan Bangor yn 1969, fel rhan o ddatliadau'r Arwisgiad. Lluniodd replica'u â blodau o dariannau tywysogion Gwynedd yn y Gadeirlan, a gwahodd eglwys i'r esgobaeth i osod blodau i amlygu eu creiriau hanesyddol ac i ddarlunio hanes a llên gwerin ardal pob un. Prin iawn yw fy niddordeb mewn trefnu blodau, ac ni dda gennyf ei ffalsio ar Garlo a'r teulu brenhinol. Eto ceir yma ffotograffau gwych, llawer ohonynt mewn lliw, o du mewn dwsin o eglwysi a'u creiriau, a thipyn go lew o hanes pob un: rhaid mai llyfr costus iawn a fu hwn i'w gyhoeddi'n breifat. Pwy a ŵyr: gydag eglwysi'n cau neu'n cael eu difrodi ar bob llaw, efallai y bydd y lluniau hyn yn gofnod hanesyddol gwerthfawr. Dyfynnir o gerddi gan feirdd megis Crwys, I.D. Hooson ac R. Williams Parry, ond ceir pennill dienw a ddylai blesio'r chwaeroliaeth fenywyddol:

*Nid gan ferch bradychwyd Iesu,
Nid gan ferch y cadd ei wadu;
Merched oedd yn glynu'n gyson
Pan y ciliai'r Apostolion.
Pwy oedd wrth y Groes ddiwethaf?
Pwy oedd wrth y bedd gynharaf?
Nid y meibion ond y merched.*

Gwir pob gair, yntê? Er hynny, ni chredaf rywsut mai o emyn y daw'r geiriau hyn: tybed nad gwaith yr awdures ydynt? –oni ŵyr rhywun amgen. Ac ys gwn i a yw Iona gyda ni o hyd?

(Parhâd ar dudalen nesaf)